

Canllawiau Statudol drafft ar Gasglu Gwastraff Papur, Metal, Plastig a Gwydr ar wahân

Sylwadau Cyffredinol

Diolch am y cyfle i gyflwyno'n sylwadau ar yr ymgynghoriad uchod.

- Rydym yn deall ac yn cefnogi'r angen am ganllawiau newydd i weithredu gofynion Cyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig yr Undeb Ewropeaidd ac yng nghyd-destun Strategaeth Gwastraff Cymru. Fodd bynnag, mae yna rai materion y dylid eu hystyried ac rydym yn dangos hynny isod.
- Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am orfodi'r cyfrifoldebau casglu ar wahân. Er bod peth eglurhad defnyddiol yn y canllawiau, rydym yn awgrymu efallai y dylid eu cryfhau i helpu busnesau casglu gwastraff sy'n darparu gwasanaeth i fasnach a diwydiant ond heb ddarparu, ar hyn o bryd, unrhyw ffurf o gasgliad ar wahân ar gyfer defnyddiau y gellid eu hailgylchu.
- Ar hyn o bryd, ymddengys fod y canllawiau'n cyfeirio'n bennaf at gynulleidfa casglu gwastraff awdurdodau lleol. Rydym yn cytuno fod hwn yn faes pwysig gan fod pob awdurdodau lleol yng Nghymru yn darparu rhyw fath o gasgliadau ar wahân, trwy gasgliadau cymysg neu ddiidoli min y ffordd. Fodd bynnag, mae yna hefyd lawer iawn o fusnesau bach a chanolig sy'n casglu gwastraff yng Nghymru, nid yw llawer o'r rhain yn casglu ar wahân ddefnyddiau y gellir eu hailgylchu ac efallai y bydd y rhain angen rhagor o gefnogaeth a chanllawiau perthnasol.
- Roedd yr oedi wrth gyflwyno'r gofynion Adnoddau Defnyddiau o dan y newidiadau yn y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2014 yn anffodus, ac un o ganlyniadau hynny yw na fydd gwybodaeth ynghylch ansawdd defnyddiau ar gael tan ddiwedd Ionawr 2015. Gallai hyn effeithio ar benderfyniadau sefydliadau sy'n casglu ac sy'n ystyried casglu ar wahân, er enghraifft wrth benderfynu a fyddai casgliadau cymysg ac yna ddiidoli'r defnyddiau mewn Adnodd Defnyddiau yn arwain at gystal ailgylchu â chasglu drwy ddiidoli yn y ffynhonnell.
- Dylai Llywodraeth Cymru gofio hefyd y gallai fod yna ganlyniadau i adnoddau sy'n cynnig gwasanaethau casglu gwastraff (tua 30 yng Nghymru ar hyn o bryd) ac sy'n gweithredu fel adnoddau ailgylchu Defnyddiau 'budr' yng Nghymru. Os gweithredir y gofynion ar gyfer casglu ar wahân, efallai y bydd yn rhaid i'r adnoddau hyn newid natur eu gwaith ac, o bosibl, gydymffurfio â'r gofynion Adnoddau Defnyddiau.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Ydych chi'n ystyried fod y canllawiau statudol yn dangos yn glir sut y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y dylai sefydliadau a busnesau sy'n casglu, cario neu dderbyn metel, plastig a gwydr gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol sydd yn Rheoliadau 13 a 14 o Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2012. Os ydych wedi ateb na, eglurwch yn gryno beth, yn eich barn chi, sy'n aneglur neu a ddylid ei newid yn y canllawiau statudol ac, os yn berthnasol, sail gyfreithiol y newid(iadau) rydych yn ystyried sydd eu hangen.

- Diben y canllawiau hyn yw rhoi arweiniad clir i sefydliadau a busnesau i'w helpu wrth benderfynu sut i gydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer casglu'r pedwar deunydd gwastraff, papur, metel, plastig a gwydr.
- Mae'r canllawiau'n canolbwyntio'n bennaf ar awdurdodau lleol, ar ffurf y casglu ac a allai casgliadau cymysg arwain at ddefnyddiau o gystal ansawdd. Bydd gweithredu'r rheoliadau Adnoddau Defnyddiau o gymorth i ddarparu tystiolaeth ynghylch ansawdd.
- Os yw gwastraff cynhyrchwyr gwastraff masnachol a diwydiannol yn debyg o ran ei gynnwys i wastraff cartrefi, yna, o dan y gyfarwydddeb fframwaith gwastraff ddiwygiedig, mae'n cael ei gynnwys yng ngofynion yr Undeb Ewropeaidd.
- Mae yna lawer iawn o fusnesau bach a chanolig sy'n casglu gwastraff ond nid yn casglu ar wahân ddefnyddiau y gellir eu hailgylchu. Mae pob awdurdod lleol, ar y llaw arall, yn casglu ar wahân.
- {Rydyn ni o'r farn, felly, y dylid cryfhau'r pwyslais ar sicrhau casgliadau ar wahân gan gasglwyr gwastraff diwydiannol a masnachol drwy ddarparwyr gwasanaeth y diwydiant gwastraff.

C2 – Rydyn ni wedi gofyn un cwestiwn penodol. Os oes yna unrhyw fater cysylltiedig nad ydym ni wedi cyfeirio ato'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w grybwyll.

Mae yna gyfle i ystyried yn y canllawiau ansawdd y defnyddiau a geir o'r Adnoddau Defnyddiau ar ôl casgliadau cymysg. Gallai hyn ddangos yn glir pa safonau cymharol y dylid eu defnyddio i ddangos defnyddiau o ansawdd da y gellir eu hailgylchu. Bydd hyn yn ran bwysig o'r ystyriaeth 'yn ymarferol yn dechnegol, amgylcheddol ac economaidd' gan awdurdodau lleol a'r diwydiant gwastraff.

Efallai yr hoffech ystyried yr wybodaeth gymharol a gyhoeddwyd gan Zero Waste Scotland a'r wybodaeth ynghylch manylebion y diwydiant adnoddau a gyhoeddwyd gan y Resource Association. Efallai y byddai hynny o gymorth i Lywodraeth Cymru wrth ystyried cynnwys eglurhad yn y ddogfen ganllawiau ynghylch y safonau y gellid eu defnyddio i ddangos defnyddiau o ansawdd da y gellir eu hailgylchu.

Rwy'n gobeithio bod y sylwadau hyn o ddefnydd. Os hoffech drafod ein sylwadau ymhellach, cysylltwch â Cathy O'Brien ar cathy.o'brien@naturalresourceswales.gov.uk

Ceri Davies

Cyfarwyddwr Gweithredol, Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio

Cyfoeth Naturiol Cymru

Caerdydd CF24 0TP
02920 466118

Ceri.Davies@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk